O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2021 Rhif 143 (Cy. 35)

PRIFFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Ffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon – Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060), Cefnffordd Caerdydd – Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999 (Dowlais Top i Hirwaun) (Diwygio) 2021

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Ffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon – Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060), Cefnffordd Caerdydd – Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Diwygio 2012, Gorchymyn Diwygio 2014 a Gorchymyn Diwygio 2019, mewn cysylltiad â'r darn o'r brif gefnffordd newydd rhwng Dowlais Top a Hirwaun (a elwir Adrannau 5 a 6); mae hefyd yn darparu ar gyfer rhai newidiadau i drefniadau'r cyffyrdd gan gynnwys diwygio'r ffyrdd ymuno ac ymadael newydd.

Roedd Gorchymyn Diwygio 2012 yn diwygio Gorchymyn 1999 o ran y darnau o'r gefnffordd newydd (yr A465) rhwng Bryn-mawr a Thredegar (a elwir Adran 3). Roedd Gorchymyn Diwygio 2014 yn diwygio Gorchymyn 1999 o ran y darnau o'r gefnffordd newydd (yr A465) rhwng Gilwern a Bryn-mawr (a elwir Adran 2). Roedd Gorchymyn Diwygio 2019 yn diwygio Gorchymyn 1999 o ran y darnau o'r cefnffyrdd newydd (yr A465 a'r A470) rhwng Dowlais Top a Hirwaun (Adrannau 5 a 6). Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn 1999 ymhellach o ran y darnau o'r cefnffyrdd newydd (yr A465 a'r A470) rhwng Dowlais Top a Hirwaun (Adrannau 5 a 6).

Mae erthygl 2 yn diwygio'r disgrifiad o'r planiau a adneuwyd yng Ngorchymyn diwygiedig 1999 o ran llinell Adrannau 5 a 6 o'r gefnffordd newydd (yr A465) drwy roi Plan Allweddol 2B, Plan Safle 9B, Plan Safle 10B a Phlan Safle 11B yn y plan a adneuwyd, fel y'i diwygiwyd gan y Gorchymyn hwn, yn lle Plan Allweddol 2A, Plan Safle 9A, Plan Safle 10A a Phlan Safle 11A yn y planiau a adneuwyd presennol.

Mae erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn diwygio Atodlen 2 i Orchymyn diwygiedig 1999 mewn cysylltiad ag Adrannau 5 a 6 drwy ddiwygio disgrifiadau o'r ffyrdd ymuno ac ymadael sydd i'w darparu.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2021 Rhif 143 (Cy. 35)

PRIFFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Ffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon – Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060), Cefnffordd Caerdydd – Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999 (Dowlais Top i Hirwaun) (Diwygio) 2021

Gwnaed	*10 Chwefror 2021*
Yn dod i rym	*18 Chwefror 2021*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 10 o Ddeddf Priffyrdd 1980(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Cychwyn, Enwi a Dehongli

1.—(1) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 18 Chwefror 2021 a'i enw yw Gorchymyn Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Ffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon – Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060), Cefnffordd Caerdydd – Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999 (Dowlais Top i Hirwaun) (Diwygio) 2021.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr y "Prif Orchymyn" yw Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Ffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon – Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060), Cefnffordd Caerdydd – Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999(**2**), fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Cefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Ffordd

(**1**) 1980 p. 66
(**2**) O.S. 1999/2720 (Cy. 9)

Man i'r Dwyrain o Abercynon – Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060) a Chefnffordd Caerdydd – Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999 (Bryn-mawr i Dredegar) (Diwygio) 2012(**3**), fel y'i diwygiwyd ymhellach gan Orchymyn Cefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon – Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060), Cefnffordd Caerdydd – Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999 (Gilwern i Fryn-mawr) (Diwygio) 2014(**4**) ac fel y'i diwygiwyd ymhellach gan Orchymyn Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Ffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon – Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060), Cefnffordd Caerdydd – Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999 (Dowlais Top i Hirwaun) (Diwygio) 2019(**5**).

Diwygio'r Planiau Adneuedig gan gynnwys y Darlun o Lwybr y Brif Gefnffordd Newydd

2. Yn erthygl 6 o'r Prif Orchymyn, yn lle paragraff (2)(i) rhodder y canlynol—

"(2)(i) ystyr "y plan adneuedig" yw

y planiau a rifwyd HA10/2 WO131 a'u marcio "Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Ffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon – Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060), Cefnffordd Caerdydd – Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999", fel y'u newidiwyd mewn cysylltiad â Phlan Allweddol 1, Plan Safle 4 a Phlan Safle 5 yn Blan Allweddol 1A, Plan Safle 4A a Phlan Safle 5A yn y plan a rifwyd HA10/2 WG7 a'i farcio "Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Ffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon – Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060) a Chefnffordd Caerdydd – Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999 (Bryn-mawr i Dredegar) (Diwygio) 2012"

ac

fel y'i newidiwyd ymhellach o ran Plan Allweddol 1A, Plan Safle 2, Plan Safle 3 a Phlan Safle 4A yn Blan Allweddol 1B, Plan Safle 2A, Plan Safle 3A a Phlan Safle 4B yn y plan adneuedig a rifwyd HA10/2 WG08 a'i farcio "Gorchymyn Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd

(**3**) O.S. 2012/2092 (Cy. 242)
(**4**) O.S. 2014/2716 (Cy. 272)
(**5**) O.S. 2019/871 (Cy. 158)

Ymuno ac Ymadael) a Ffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon – Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060), Cefnffordd Caerdydd – Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999 (Gilwern i Frynmawr) (Diwygio) 2014"

ac

fel y'i newidiwyd ymhellach o ran Plan Allweddol 2, Plan Safle 7, Plan Safle 8, Plan Safle 9, Plan Safle 10 a Phlan Safle 11 yn Blan Allweddol 2A, Plan Safle 7A, Plan Safle 8A, Plan Safle 9A, Plan Safle 10A a Phlan Safle 11A yn y plan adneuedig a rifwyd HA10/2 WG14 a'i farcio "Gorchymyn Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Ffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon – Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060), Cefnffordd Caerdydd – Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999 (Dowlais Top i Hirwaun) (Diwygio) 2019"

ac

fel y'i newidiwyd ymhellach o ran Plan Allweddol 2A, Plan Safle 9A, Plan Safle 10A a Phlan Safle 11A yn Blan Allweddol 2B, Plan Safle 9B, Plan Safle 10B a Phlan Safle 11B yn y plan adneuedig a rifwyd HA10/2 WG19 a'i farcio "Gorchymyn Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Ffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon – Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060), Cefnffordd Caerdydd – Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999 (Dowlais Top i Hirwaun) (Diwygio) 2021"

a lofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru a'i adneuo (cyf qA1433467) yn Adran Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Diwygio llwybrau'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael newydd (Cyffordd a Llwybrau'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael i'w Hailalinio)

3. Yn Atodlen 2 i'r Prif Orchymyn, ym mharagraff 19, rhodder cyfeiriadau at "Plan Safle 9B" yn lle'r cyfeiriadau at "Plan Safle 9A" a dileer yr ail is-baragraff a rhodder yn ei le yr ail, y trydydd a'r pedwerydd is-baragraff a ganlyn—

"Pedwar llwybr i gysylltu cerbytffyrdd tua'r dwyrain a thua'r gorllewin y brif gefnffordd newydd â dwy gylchfan gysylltiedig sydd i'w hadeiladu fel rhan o Gefnffordd Caerdydd – Glanconwy (A470) (a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn) yng Nghefncoedycymer (rhoddir y rhifau 37, 38, 58 a 59 i'r cefnffyrdd newydd ar hyd y llwybrau hyn ar y plan adneuedig ar Blan Safle 9B (fel y'i diwygiwyd)).

Llwybr rhyw 363 o fetrau o hyd sy'n cychwyn o bwynt 136 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt cylchfan bresennol yr A470 (i ymuno â chylchfan ogleddol ffordd gyswllt newydd F) i gyfeiriad cyffredinol y gogledd-ddwyrain i ymuno â cherbytffordd tua'r dwyrain y brif gefnffordd newydd ar bwynt 69 o fetrau i'r de-orllewin o'r gyffordd rhwng Upper High Street ac Upper Vaynor Road (rhoddir y cyfeirnod 58 i'r gefnffordd newydd ar hyd y llwybr hwn ar y plan adneuedig ar Blan Safle 9B (fel y'i diwygiwyd)).

Llwybr rhyw 746 o fetrau o hyd sy'n cychwyn o bwynt ar gerbytffordd tua'r dwyrain y brif gefnffordd newydd 533 o fetrau i'r dwyrain o gyffordd yr A465 (T) Swansea Road i gyfeiriad cyffredinol y dwyrain hyd at bwynt 144 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt cylchfan bresennol yr A470, i ymuno â chylchfan ogleddol ffordd gyswllt newydd F (rhoddir y cyfeirnod 59 i'r gefnffordd newydd ar hyd y llwybr hwn ar y plan adneuedig ar Blan Safle 9B (fel y'i diwygiwyd)).".

4. Yn Atodlen 2 i'r Prif Orchymyn, ym mharagraff 20, rhodder cyfeiriadau at "Plan Safle 10B" yn lle'r cyfeiriadau at "Plan Safle 10A" a dileer yr ail is-baragraff a rhodder yn ei le yr ail a'r trydydd is-baragraff a ganlyn—

"Pedwar llwybr i gysylltu cerbytffyrdd tua'r dwyrain a thua'r gorllewin y brif gefnffordd newydd â dwy gylchfan gysylltiedig sydd i'w hadeiladu fel rhan o'r briffordd y bwriedir darparu ar ei chyfer yn y gorchymyn ffyrdd ymyl cysylltiedig, yn Baverstock i'r de-orllewin o Jah Jireh Nursing Home (a arferai gael ei alw'n Westy Baverstock) ac i'r gogledd a'r gogledd-ddwyrain o Amlosgfa Llwytgoed (rhoddir y cyfeirnodau 60, 42, 43 a 44 i'r cefnffyrdd newydd ar hyd y llwybrau hyn ar y plan adneuedig ar Blan Safle 10B (fel y'i diwygiwyd)).

Llwybr rhyw 805 o fetrau o hyd sy'n cychwyn o bwynt ar gerbytffordd tua'r gorllewin y brif gefnffordd newydd 281 o fetrau i'r dwyrain o'r gyffordd rhwng cefnffordd bresennol yr A465 a'r ffordd sy'n arwain at Jah Jireh Nursing Home, i gyfeiriad cyffredinol y de-orllewin hyd at bwynt 524 o fetrau i'r de-orllewin o'r gyffordd rhwng cefnffordd bresennol yr A465 a'r ffordd ddiddosbarth sy'n arwain at Groesbychan (ar gerbytffordd gylchredol cylchfan newydd y bwriedir darparu ar ei chyfer yn y gorchymyn ffyrdd ymyl cysylltiedig) (rhoddir y cyfeirnod 60 i'r gefnffordd newydd ar hyd y llwybr hwn ar y plan adneuedig ar Blan Safle 10B (fel y'i diwygiwyd)).

5. Yn Atodlen 2 i'r Prif Orchymyn, dileer paragraff 21 a mewnosoder—

“21. Cyffordd aml-lefel wrth Byllau Hirwaun (Plan Safle 11B).

Pedwar llwybr i gysylltu cerbytffyrdd tua’r dwyrain a thua’r gorllewin y brif gefnffordd newydd â dwy gylchfan gysylltiedig sydd i’w hadeiladu fel rhan o’r briffordd y bwriedir darparu ar ei chyfer yn y gorchymyn ffyrdd ymyl cysylltiedig, yng nghyffiniau’r gylchfan bresennol wrth Byllau Hirwaun (rhoddir y cyfeirnodau 61, 62, 63 a 64 i’r cefnffyrdd newydd ar hyd y llwybrau hyn ar y plan adneuedig ar Blan Safle 11B (fel y’i diwygiwyd)).

Llwybr rhyw 478 o fetrau o hyd sy’n cychwyn o bwynt ar gerbytffordd tua’r gorllewin y brif gefnffordd newydd 89 o fetrau i’r gorllewin o gornel dde-orllewinol Cae Hamdden Hirwaun, i gyfeiriad cyffredinol y gogledd-orllewin hyd at bwynt 109 o fetrau i’r de o gylchfan y Rhigos i ymuno â cherbytffordd gylchredol ffordd gysylltu newydd y bwriedir darparu ar ei chyfer yn y gorchymyn ffyrdd ymyl cysylltiedig (rhoddir y cyfeirnod 61 i’r gefnffordd newydd ar hyd y llwybr hwn ar y plan adneuedig ar Blan Safle 11B (fel y’i diwygiwyd)).

Llwybr rhyw 462 o fetrau o hyd sy’n cychwyn o bwynt 93 o fetrau i’r de-orllewin o ganolbwynt cylchfan y Rhigos (ar gerbytffordd gylchredol ffordd gysylltu newydd y bwriedir darparu ar ei chyfer yn y gorchymyn ffyrdd ymyl cysylltiedig) i gyfeiriad cyffredinol y gogledd-orllewin i ymuno â cherbytffordd tua’r gorllewin y brif gefnffordd newydd wrth bwynt 351 o fetrau i’r de-ddwyrain o Bont Seidins y Tower (rhoddir y cyfeirnod 62 i’r gefnffordd newydd ar hyd y llwybr hwn ar y plan adneuedig ar Blan Safle 11B (fel y’i diwygiwyd)).

Llwybr rhyw 609 o fetrau o hyd sy’n cychwyn o bwynt 50 metr i’r de-ddwyrain o ganolbwynt cylchfan y Rhigos (i ymuno â cherbytffordd gylchredol ffordd gysylltu y bwriedir darparu ar ei chyfer yn y gorchymyn ffyrdd ymyl cysylltiedig) i gyfeiriad cyffredinol y de-ddwyrain i ymuno â cherbytffordd tua’r dwyrain y brif gefnffordd newydd wrth bwynt 56 o fetrau i’r de o gornel dde-orllewinol Cae Hamdden Hirwaun (rhoddir y cyfeirnod 63 i’r gefnffordd newydd ar hyd y llwybr hwn ar y plan adneuedig ar Blan Safle 11B (fel y’i diwygiwyd)).

Llwybr rhyw 533 o fetrau o hyd sy’n cychwyn o bwynt ar gerbytffordd tua’r dwyrain y brif gefnffordd newydd 258 o fetrau i’r de-ddwyrain o Bont Seidins y Tower, i gyfeiriad cyffredinol y de-ddwyrain hyd at bwynt 31 o fetrau i’r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt cylchfan y Rhigos i ymuno â cherbytffordd gylchredol ffordd gysylltu newydd y bwriedir darparu ar ei chyfer yn y gorchymyn ffyrdd ymyl cysylltiedig (rhoddir y

cyfeirnod 64 i'r gefnffordd newydd ar hyd y llwybr hwn ar y plan adneuedig ar Blan Safle 11B (fel y'i diwygiwyd)).

6. Yn Atodlen 2 i'r Prif Orchymyn, ym mharagraff 23, rhodder cyfeiriadau at "Plan Safle 11B" yn lle'r cyfeiriadau at "Plan Safle 11A".

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru

Dyddiedig: 10 Chwefror 2021

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru